

# Cylchlythyr mis Ionawr
# Tyfu Canolbarth Cymru

Rydym bron â chyrraedd diwedd mis cyntaf 2026 — ac mae eisoes wedi bod yn ddechrau prysur a chadarnhaol i'r flwyddyn ar draws Canolbarth Cymru.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu diweddariad ar yr ymateb calonogol i'n galwad adnewyddedig am fynegiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau cyfalaf — ac mae dal amser i gyflwyno'ch diddordeb os ydych yn datblygu prosiect a all helpu i hybu cynhyrchiant, creu swyddi neu sbarduno arloesedd yn y rhanbarth.

Yn ogystal â hyn, fe welwch uchafbwyntiau o waith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cefnogi llwybrau galwedigaethol a sgiliau'r dyfodol, adlewyrchiad ar gynrychiolaeth Canolbarth Cymru yn Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru 2025, a mewnwelediadau o'n colofn westai ddiweddar gyda Business News Wales.

Fe welwch hefyd grynodeb o brosiectau cyllido, creu lleoedd ac amgylcheddol sy'n helpu i gryfhau cymunedau ac economïau lleol ledled Canolbarth Cymru, ynghyd â diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner.

Wrth edrych ymlaen at y mis nesaf, byddwn yn rhannu ein podlediad diweddaraf yn cynnwys prosiectau WSRID, diweddariadau o'r peilot Cysylltiadau Gyrfaoedd, a ddatblygiadau digidol.

Fel bob amser, diolch am aros yn gysylltiedig ac am y rôl rydych yn ei chwarae wrth gefnogi twf, cyfle a chydweithio ar draws Canolbarth Cymru.

Tîm Tyfu Canolbarth Cymru

[**Clawr**: Golygfa o ffilm Tyfu Canolbarth Cymru a gyflwynwyd yn Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru 2025: https://youtu.be/uPaefkjnKB8?si=xK8U0QBCfY4fpHfV ]

**Cynnwys:**


- Atgoffa – mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau cyfalaf
- Cyllid o £2.95m Innovate UK wedi'i ddyfarnu i naw prosiect technoleg amaeth a thechnoleg bwyd
- Cefnogi llwybrau galwedigaethol yng Nghanolbarth Cymru
- Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru 2025
- Chwalu'r mythau sy'n dal y sector adeiladu yn ôl
- Newyddion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU o'r rhanbarth
- £1.22m o fuddsoddiad yn economi Powys yn dilyn dyfarnu 18 grant i fusnesau
- Cynllun Tacluso Trefi Ceredigion
- Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi 2025–2027
- Cynefin gwlyptir newydd wedi'i greu i hybu planhigion prin ar Gamlas Maldwyn
- Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd a rennir gan sefydliadau partner


## Atgoffa – mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau cyfalaf

Mae'r ymateb hyd yma wedi bod yn galonogol iawn, gyda mynegiadau cryf o ddiddordeb eisoes wedi'u derbyn o bob cwr o Ganolbarth Cymru wrth i ni adnewyddu piblinell fuddsoddi Tyfu Canolbarth Cymru. Os ydych yn datblygu prosiect cyfalaf a allai hybu cynhyrchiant, creu swyddi neu ddatgloi arloesedd, mae dal amser i gymryd rhan.

Mae sefydliadau cymwys yn cynnwys busnesau preifat, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau elusennol cofrestredig.

**31 Ionawr** yw'r dyddiad cau ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb i'w hystyried ar y cam cyntaf. Bydd cyfleoedd pellach i gyflwyno mynegiadau o ddiddordeb yn dilyn maes o law.

Mae manylion llawn ar gael ar ein gwefan.

## Cyllid o £2.95m Innovate UK wedi'i ddyfarnu i naw prosiect technoleg amaeth a thechnoleg bwyd

Mae naw prosiect arloesol ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru wedi sicrhau cyfanswm o £2.95 miliwn mewn cyllid Ymchwil a Datblygu Cydweithredol gan Innovate UK, gan gryfhau ecosystem arloesi technoleg amaeth a thechnoleg bwyd y rhanbarth.

Darllenwch mwy am bob prosiect ar ein wefan.




## Cefnogi llwybrau galwedigaethol yng Nghanolbarth Cymru



Roedd tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) yn falch iawn o fynychu digwyddiad ymgysylltu diweddar yn Llanbedr Pont Steffan, a oedd yn arddangos y cyfleoedd sgiliau galwedigaethol cyffrous sy'n datblygu yn ein rhanbarth.

Daeth y digwyddiad â rhanddeiliaid lleol, pobl ifanc, busnesau a phartneriaid addysg ynghyd i archwilio'r cynlluniau ar gyfer Fferm Llettytwppa fel canolfan ar gyfer dysgu ymarferol mewn amaethyddiaeth a chrefftau cysylltiedig — o ofalu am dda byw a chynhyrchu cnydau i sgiliau traddodiadol a modern sy'n bwysig i gyflogwyr Canolbarth Cymru.


Amlygodd y digwyddiad pa mor hanfodol yw darpariaeth alwedigaethol leol i bobl ifanc a dysgwyr gydol oes, gan gynnig profiad ymarferol a llwybrau gyrfa sy'n helpu i gadw talent yn ein cymunedau. Mae'r sesiynau blasu ymarferol a'r mewnwelediad i brentisiaethau amaethyddol yn union y math o gyfleoedd yr ydym am eu gweld yn ffynnu ar draws y rhanbarth.

Cenhadaeth y PSRh yw cysylltu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr hyfforddiant ledled Ceredigion a Phowys er mwyn adeiladu gweithlu medrus, gwydn a pharod ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd tîm y PSRh: "Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda darparwyr addysg, cyflogwyr a chymunedau i gefnogi twf llwybrau hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion economi Canolbarth Cymru nawr ac yn y dyfodol."

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Cyngor Sir Ceredigion.





## Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru 2025

Roedd Tyfu Canolbarth Cymru yn falch o chwarae rhan yn Uwchgynhadledd Buddsoddi Cymru 2025 ar 1 Rhagfyr 2025, a ddaeth â buddsoddwyr rhyngwladol, busnesau a phartneriaid ynghyd i arddangos Cymru fel lle i fuddsoddi, arloesi a thyfu.


Fel rhan o raglen yr Uwchgynhadledd, dangoswyd ffilm Tyfu Canolbarth Cymru yn tynnu sylw at gryfderau, cyfleoedd ac uchelgeisiau'r rhanbarth yn y prif awditoriwm, gan sicrhau bod Canolbarth Cymru yn cael ei gynrychioli'n gadarn ochr yn ochr â rhanbarthau buddsoddi allweddol eraill yng Nghymru.

Yn ogystal, dosbarthwyd gwaith celf o adran Cryfderau Rhanbarthol Prospectws Buddsoddi Cymru — yn cynnwys Canolbarth Cymru — i bob dirprwy, gan helpu i atgyfnerthu proffil a chynnig buddsoddi'r rhanbarth drwy gydol y digwyddiad.

Gyda'i gilydd, helpodd y cyfraniadau hyn i osod Canolbarth Cymru fel rhanbarth cysylltiedig, blaengar gyda chyfleoedd clir ym meysydd arloesi, twf glân, sgiliau a datblygu ar sail lle. Am ragor o wybodaeth am sut y bu'r Uwchgynhadledd, ewch i [wefan Llywodraeth Cymru.]()




*1 - Watch the Growing Mid Wales film: https://youtu.be/uPaefkjnKB8?si=xK8U0QBCfY4fpHfV*



Across every corner of Wales, investment, innovation, and inclusion are creating a nation where business can grow with purpose. From coastal Freeports to dynamic Investment Zones and the thriving Mid Wales growth corridor, each region combines distinct industrial strengths with a shared national vision for a sustainable and balanced economy.

REGIONAL STRENGTHS

Driving Growth Across Wales

1–Anglesey Freeport
*North Wales*

Anglesey Freeport is transforming the north into a global hub for low carbon energy, data/AI, manufacturing, and international trade. Centered around Holyhead Port, Prosperity Park, Parc Cybi, Rhosgoch, and the M-SParc Science Park, the Freeport supports the UK's transition to clean energy through projects in nuclear, hydrogen, and marine renewables. Backed by £25 million in seed funding, it is forecast to generate 5,000 high value jobs across advanced data/technology, logistics, and energy. This strategic location, at the crossroads of the Irish Sea and European trade corridors, demonstrates how North Wales is harnessing innovation to drive sustainable prosperity.

2–Celtic Freeport
*South West Wales*

Spanning Milford Haven and Port Talbot, the Celtic Freeport is a flagship clean energy and industrial decarbonisation initiative; it will power the net zero transition through floating offshore wind, hydrogen, sustainable fuels, manufacturing, energy storage and port logistics. The Freeport is expected to create up to 11,500 skilled jobs and attract £8.4 billion in private investment. An Industrial Strategy Zone, strategically located near two deep-water ports, offers excellent rail, road, sea and pipeline connectivity. Supported by highly competitive investment incentives, it features strong workforce development through local training and upskilling initiatives, plus an innovation network linking academia, industry and research centres. The Celtic Freeport exemplifies the Welsh commitment to connecting people, skills and technology in pursuit of a cleaner, stronger economy.

3–Growing Mid Wales
*Mid Wales*

Mid Wales is a dynamic region of opportunity – a place where ingenuity meets global ambition. The region is accelerating growth across agri-food and agri-tech, advanced manufacturing, sustainable tourism, clean energy and digital infrastructure. The region is investing heavily in regional assets with £110 million from the Mid Wales Growth Deal unlocking over £300 million in public and private investment. From innovation campuses and enterprise hubs to skills and innovation launchpads, Mid Wales offers a connected landscape for innovation, skills and inclusive growth – making it more capable than ever to partner with business to drive sustainable, place-based growth.

6



Well Connected

North and Mid Wales are well served by their proximity to the large metropolitan areas and international airports of Birmingham, Liverpool and Manchester. Cardiff is served by its own international airport, which connects to main European hubs while London Heathrow can be reached within two hours.

4–Wrexham and Flintshire Investment Zone
*North East Wales*

The North East Wales Investment Zone builds upon a well-established advanced manufacturing region. Focussed on the key strategic sites of Wrexham and Deeside Industrial Estates, Warren Hall and land surrounding Hawarden Airport, it benefits from £160 million in joint UK and Welsh Government funding to accelerate research, productivity, and job creation. Airbus, Toyota, JCB, AMRC and many others are advancing next generation processes in aerospace, automotive, and low carbon technology. The area is also supported by the North Wales Growth Deal and is enhancing export infrastructure and supply chain capabilities that reach into North West England and Europe. This vibrant industrial heartland is a model of cross border connectivity, flexibility, and ambition.

5–Cardiff and Newport Investment Zone
*South East Wales*

Home to one of the UK's most concentrated innovation ecosystems, South East Wales leads the way in Advanced Manufacturing and Digital & Data. Cardiff and Newport form the gateway to the unique Compound Semiconductor Cluster and connect major academic, public, and private research institutions to commercial opportunity. A joint UK and Welsh Government initiative, delivered by Cardiff Capital Region, this Investment Zone is accelerating growth in R&D and innovation. With a focus on sustainable development and inclusive prosperity, South East Wales is a magnet for international investment.

7

*2 - Fersiwn Saesneg yn unig*

## Chwalu'r mythau sy'n dal y sector adeiladu yn ôl



*3 - Doug Hughes*

Yn ein colofn westai ddiweddaraf gyda Business News Wales, mae Doug Hughes yn archwilio'r mythau sy'n dal y sector adeiladu yn ôl ac yn rhannu sut mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn dod â diwydiant, addysgwyr a chyflogwyr ynghyd i wneud gyrfaoedd adeiladu yn fwy gweladwy ac yn fwy hygyrch yn ein rhanbarth. Darllenwch yr erthygl lawn (yn Saesneg yn unig) ar [wefan Business News Wales.]()

## Gweinidog yn gweld potensial twf Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd newydd

Aeth Anna McMorrin AS ar daith (22.01.26) dywys o amgylch ArloesiAber, cyfleuster datblygu integredig i gyflymu arloesedd ym meysydd bwyd a diod, yr economi gylchol a

thechnoleg amaethyddol, ynghyd ag Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS).

Mae'r Parc Arloesi Dyfodol Gwyrdd, menter sydd wedi ei chynnig ar gyfer campws Gogerddan y Brifysgol, yn un o sawl prosiect sy'n cael eu datblygu ar gyfer cefnogaeth bosibl gan Fargen Dwf y Canolbarth.

Darllenwch mwy am yr ymweliad ar [ein wefan.]



*4 - Anna McMorrin AS yn ArloesiAber*

## Newyddion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU o’r rhanbarth

### £1.22m o fuddsoddiad yn economi Powys yn dilyn dyfarnu 18 grant i fusnesau

Mae cyfanswm o £1.22 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn economi Powys gan fusnesau a’r cyngor sir, ar ôl dyfarnu 18 grant cyfalaf.

Mae’r cwmnïau’n buddsoddi bron i £1 filiwn yn eu dyfodol eu hunain, gyda’r cyngor wedi ychwanegu £243,000 o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU Llywodraeth y DU.

Am ragor o wybodaeth am yr erthygl lawn a’r 18 busnes llwyddiannus, ewch i adran Newyddion [gwefan Cyngor Sir Powys.]



*5 - Kindle House, Ystradgynlais – £8,285 tuag at welliannau i ardal eistedd yr iard yn Y Stablau, bar a chegin glan yr afon.*

### Cynllun Tacluso Trefi Ceredigion

Mae galwad ddiweddar wedi agor o dan Gynllun Tacluso Trefi Ceredigion, sy'n darparu cymorth ariannol i helpu i wella ymddangosiad a bywiogrwydd canol trefi ar draws y sir.

Wedi'i gefnogi drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar welliannau amgylcheddol ymarferol megis plannu, paentio, ffensio a gwelliannau bach eraill sy'n helpu i greu mannau trefol glanach a mwy croesawgar.

Er bod y cynllun wedi'i dargedu'n benodol at drefi, mae'n rhan o fuddsoddiad ehangach ar sail lle sy'n anelu at gryfhau cymunedau ac economïau lleol ledled Ceredigion.

Mae'r cynllun ar agor i gynghorau tref yn unig ac fe'i cyflwynir drwy Cynnal y Cardi, gyda grantiau hyd at £10,000 ar gael i gefnogi costau refeniw cymwys. I ofyn am ffurflenni cais neu gael rhagor o wybodaeth, dylai cynghorau cymwys gysylltu â ce.cynnalycardi@ceredigion.gov.uk



## Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi 2025–2027

Bydd Grant Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru yn darparu buddsoddiad cyfalaf o £4 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi ac adfywio canol trefi ar draws Ceredigion a Phowys.

Mae'r gronfa hon ar agor ar sail 'y cyntaf i'r felin'.

Am ragor o wybodaeth: –

- Trefi Ceredigion: gwefan Cyngor Sir Ceredigion
- Trefi Powys: gwefan Cyngor Sir Powys

## Cynefin gwlyptir newydd wedi'i greu i hybu planhigion prin ar Gamlas Maldwyn

Mae'n wych gweld cynnydd parhaus ar Gamlas Maldwyn, gyda chynefin gwlyptir newydd wedi'i greu i gefnogi rhywogaethau planhigion prin a gwarchodedig.

Mae'r gamlas yn rhan o raglen ehangach o gynigion adfywio sy'n cael eu datblygu ar draws Canolbarth Cymru, gyda phwyslais cryf ar ddulliau sy'n rhoi natur yn gyntaf, treftadaeth, a chyfleoedd economaidd ar sail lle.

Fel Tyfu Canolbarth Cymru, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i archwilio sut y gall prosiectau fel hyn gyfrannu at dwf hirdymor cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth, ochr yn ochr â gwelliannau amgylcheddol a budd i gymunedau.

Rhagor o wybodaeth ar dudalen Newyddion Cyngor Sir Powys.



## Tour de France yn dod i Bowys

Rydym yn croesawu'r newyddion bod y Tour de France yn dod i Bowys ym mis Gorffennaf 2027 — foment fawr i Ganolbarth Cymru. Bydd cynnal y Grand Départ yn dod ag amlygrwydd rhyngwladol, mwy o wariant gan ymwelwyr a manteision hirdymor i fusnesau lleol, twristiaeth a chymunedau, gan helpu i arddangos Canolbarth Cymru ar lwyfan byd-eang.

Gwyliwch reel o Gyngor Sir Powys yma:
https://youtube.com/shorts/yJgsjsUXcgw?si=wnyKDOubCHyUfDNa




## Newyddion eraill – diweddariadau a chyfleoedd gan bartneriaid

### Helpu busnesau gwledig i aros yn gystadleuol gyda phecyn cymorth AI newydd

Mae Antur Cymru Enterprise wedi lansio pecyn cymorth deallusrwydd artiffisial newydd i helpu busnesau gwledig yng Nghymru i wella eu gwelededd ar-lein a chadw'n gystadleuol wrth i chwilio sy'n cael ei yrru gan AI dyfu.

Am ragor o wybodaeth, gall busnesau gysylltu â

Mae'r stori lawn ar gael ar [wefan Antur Cymru.](#)



## Cadwch mewn cysylltiad â diweddariadau economi a hinsawdd Powys

Mae Cyngor Sir Powys wedi lansio cylchlythyr Economi a Hinsawdd newydd bob deufis, sy'n cynnwys y newyddion diweddaraf, mewnwelediadau a chymorth i fusnesau ledled y sir.

Mae'n ffordd wych o gadw'n wybodus am dueddiadau economaidd lleol, cyfleoedd cyllido a mentrau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd a allai fod o fudd i'ch sefydliad.

Gall busnesau gofrestru i dderbyn y cylchlythyr hwn yn uniongyrchol i'ch blwch derbyn, llenwch Ffurflen Ymholiadau Busnes Powys a thiciwch y blwch i dderbyn diweddariadau:

👉 https://formbuilder.evolutive.co.uk/formsite/form/ac7261a8-61d3-469e-9a67-3e21d5312e2b

Gallwch weld y rhifyn cyfredol yma:

👉 https://sway.cloud.microsoft/vrrlFrAm1Yy0VRGn?ref=email




## Sut gall allforio gefnogi twf eich busnes?

Gall allforio drawsnewid bron pob agwedd ar eich busnes, a dyna pam mae Tîm Masnach Llywodraeth Cymru yn cefnogi cannoedd o fusnesau bach a chanolig ledled Cymru bob blwyddyn ar eu taith allforio.

Mae gan y Cynghorwyr Masnach Ryngwladol hanes profedig o weithio gyda busnesau, boed yn newydd i fasnach ryngwladol neu'n allforwyr sefydledig sy'n awyddus i ehangu eu cyrhaeddiad ymhellach. Gallant eich helpu i ystyried a yw allforio'n addas i chi, archwilio marchnadoedd newydd, nodi cyfleoedd newydd a goresgyn rhwystrau logistaidd a rheoleiddiol.

Fel rhan o'r tîm masnach, mae Jane Christie a Mike Krawec yn gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau yng Ngheredigion a Phowys i'w cefnogi i ddatblygu gwerthiannau allforio. Mae'r ddau ar gael i gwrdd yn uniongyrchol â busnesau sydd ag uchelgais i allforio.

Mae eu manylion cyswllt fel a ganlyn:

• Jane Christie – jane.christie@gov.wales

• Mike Krawec – Michael.Krawec@gov.wales

Gellir gwneud ymholiadau allforio hefyd drwy flwch post Tîm Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru: InternationalTrade@gov.wales

Mae gwybodaeth am yr ystod lawn o gymorth sydd ar gael i fusnesau cymwys ar gael yn y [llyfryn allforio.]



*6 - Jane Christie [jane.christie@gov.wales]*




*7 - Mike Krawec [Michael.Krawec@gov.wales]*

## Galwad am bartneriaid i wella cyrchfannau ymwelwyr awyr agored Cymru

A fyddai eich sefydliad cymunedol, busnes newydd neu fusnes presennol â diddordeb mewn gwella profiad ymwelwyr mewn dau o gyrchfannau awyr agored mwyaf unigryw Cymru?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi lansio ymarfer i nodi grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol a busnesau i helpu i wella profiad ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin. Anogir sefydliadau sydd â diddordeb i gael rhagor o wybodaeth ac i gymryd rhan drwy [wefan CNC.]




## Edrych ymlaen

Hoffech chi ddal fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Cofiwch, gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol yma:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau YouTube, LinkedIn ac Instagram:

www.instagram.com/growingmidwales/

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i gyrraedd gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales